

No.

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams a Mark Wilson.

1047 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1048 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Robert Crowley, Andrew R.T. Davies, Anthony Hampton, John Thomas a Marguerita Wright.

1049 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

1050 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

1051 CYHOEDDIAD –

(i) Soniodd y Maer wrth y Cyngor am nifer o ddigwyddiadau yr oedd wedi bod iddynt ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys Gwasanaeth Dinesig

Maer y Bont-faen, Sioe'r Ysgolion Uwchradd yn Neuadd Dewi Sant, Band Pres y Fro (digwyddiad i godi arian i Wcráin), digwyddiad datgan swydd ar gyfer Uchel Siryf De Morgannwg a oedd newydd ei benodi, digwyddiad Pasg Cyfeillion a Chymdogion yn y Barri, Digwyddiad Lluoedd Arfog y Barri yn Cemetery Approach, yn ogystal â chynnal digwyddiad Coffi o Ddiolch Sefydliad y Maer. Ar 3 Mai byddai'r Maer yn mynd i ddigwyddiad Ymgysylltu Cymunedol HMS Cambria. Achubodd y Maer hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Aelodau etholedig a oedd yn ymddeol neu'n rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyngorwyr am y blynyddoedd roeddent wedi'u treulio'n cynrychioli trigolion Bro Morgannwg, a dymunodd ynn dda iddynnt ar eu hymddeoliad. Dymunai'r Maer hefyd ddiolch i'r Arweinydd, a oedd hefyd yn ymddeol ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth cyhoeddus i drigolion Bro Morgannwg. Roedd ei ymroddiad i'r rôl wedi helpu i lywio'r Cyngor yn llwyddiannus drwy bandemig COVID-19, pan oedd y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'w drigolion. Yn olaf, dywedodd y Maer fod y Cyngor yn meddwl am bobl Wcráin ac yn gweddio drostynt.

(ii) Dywedodd yr Arweinydd y bu'n anrhydedd gwasanaethu fel Arweinydd y Cyngor a dymunai ddiolch i'r rhai a gefnogodd ei benodiad, a mynegodd ddiolch i'r Dirprwy Arweinydd a'r Cabinet, ei wraig a'i gyd-gynghorydd yn y Fro, y Cyngorwyr hynny a oedd yn sefyll ac yn ymddeol, uwch arweinwyr y Cyngor, y Prif Weithredwr, yn ogystal â holl staff y Cyngor, y rhai a oedd yn gweithio o bell neu a oedd wedi parhau i weithio wyneb yn wyneb mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, gwastraff ac ailgylchu, y tîm PPE, cyllid a thracio ac olrhain . Er gwaethaf heriau COVID-19, parhaodd Cyngor Bro Morgannwg i fod yn un o'r Cyngorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Ychwanegodd mai llywodraeth leol oedd asgwrn cefn y gymuned leol ac nad tasg syml oedd cynnal Prif Gyngor, a bod Cyngorwyr a Swyddogion wedi gwneud yr hyn a oedd orau yn eu tyb nhw mewn amgylchiadau anodd, oddi mewn i'r gyfraith a rheoliadau, ac er budd y gymuned.

(iii) Gyda chaniatâd i siarad, roedd Aelodau Etholedig eraill, gan gynnwys Arweinwyr Grŵp y Ceidwadwyr, Grŵp Annibynnol Llantwit First a Phlaid Cymru yn dymuno diolch i'r holl Aelodau nad oeddent yn sefyll yn yr etholiadau lleol, ac i'r Arweinydd, am eu gwasanaeth i'r Fro ac am eu cymorth a'u cyngor. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan y Cynghorydd Wilson, a dalodd deyrnged i'r Arweinydd a'i wraig, gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio a dalodd deyrnged am y gwaith cadarnhaol a wnaed o fewn ei phortffolio, yn enwedig yn ystod COVID-19, a'r arweiniad a gafwyd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Ategwyd hyn hefyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth a oedd hefyd yn dymuno canmol y gwaith a wnaed o fewn ei bortffolio, yn enwedig o ran ailgylchu, lle cafwyd llwyddiant yn sgil cyfraniad Swyddogion, staff rheng-flaen a thrigolion.

(iv) Diolchodd y Prif Weithredwr hefyd i'r holl Aelodau Etholedig, i'r rhai a oedd yn ailsefyll a'r rhai a oedd yn ymddeol, am eu gwasanaeth, a thalodd deyrnged i'r Uwch Dîm Arwain am eu gwaith yn ystod y Pandemig, a hefyd am y gwaith a gyflawnwyd gan adrannau, timau a staff y Cyngor, ac am yr arweiniad a gafwyd gan yr Arweinydd dros y cyfnod hwn.

1052 RHEOLIADAU DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 (DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DARPARIAETH DROSIANNOL) (PRIF WEITHREDWYR) 2022 ("Y RHEOLIADAU") (PW) –

Cyn ystyried yr adroddiad, gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod. Wrth gyflwyno'r adroddiad, hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor am Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022 ("y Rheoliadau"). Roedd yr adroddiad yn esbonio goblygiadau cyfreithiol llawn y Rheoliadau.

Pan ddaeth Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i rym ("y Ddeddf") drwy Orchymyn, daeth y Rheoliadau i rym gan ddisodli'r gofyniad cyfredol i ddynodi swyddog presennol yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a chynnwys darpariaeth y dylid trin y swyddog a ddynodwyd yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn union cyn 5 Mai 2022 fel Prif Weithredwr o dan adran 54 o'r Ddeddf.

Ychwanegodd yr Arweinydd mai ymarfer 'cadw tŷ' oedd hyn, ac nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol yn sgil yr aiddynodiad hwn. Roedd yn ofyniad cyfreithiol, ac nid oedd angen cymryd unrhyw gamau contractiol pellach.

Gofynnodd yr arweinydd am gael nodi cyflwyno Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022, a secondiwyd hynny'n briodol gan y Dirprwy Arweinydd.

PENDERFYNWYD – Nodi cyflwyniad Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi cyflwyniad y Rheoliadau a fydd yn dod i rym o 5 Mai, 2022.

1053 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021 - 2036: ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT AC YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR Y CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT (CYF) –

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio fod canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 14 Mawrth, 2022, gan ofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno'r dogfennau diwygiedig i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Medi 2021, ystyriodd a chymeradwyodd y Cabinet yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft i ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus (gweler Cofnod C675). Roedd yr adroddiad yn esbonio canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 5 Tachwedd, 2021 a 31 Ionawr, 2022 ynghyd â diwygiadau a gynigiwyd i'r ddwy ddogfen. Gofynnwyd i'r Cabinet

No.

gymeradwyo'r newidiadau cyn eu hailgyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor baratoi'r CDLI Newydd yn unol â'r Cytundeb Cyflawni cymeradwy yn unol â Rheoliadau CDLI 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Roedd cyfanswm o 53 o randdeiliaid wedi gwneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft, ac roedd eu safbwyntiau wedi'u hystyried a'u cynnwys yn yr adroddiad (Atodiad B yr adroddiad). Rhoddodd 17 o ymatebwyr hefyd sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni drafft (Atodiad A). Roedd y newidiadau a gynigiwyd i'r dogfennau wedi'u nodi yn Atodiad C yr adroddiad.

Ar ôl hynny, gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio y Cynnig a oedd yn yr adroddiad:

- Cymeradwyo'r ymatebion i'r sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni drafft yn Atodiad A a'r Adroddiad Adolygu drafft yn Atodiad B.
- Cymeradwyo'r newidiadau a gynigir yn Atodiad C yr adroddiad, a diweddarau'r Cytundeb Cyflawni drafft a'r Adroddiad Adolygu drafft yn unol â hynny.
- Yn unol â Phenderfyniadau (1) a (2), cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni a'r Adroddiad Adolygu diwygiedig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.
- Yn amodol ar Benderfyniad (3) uchod, darparu copïau i'w harchwilio ym mhrif swyddfa'r Cyngor yn ystod oriau wyddfa arferol a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Eiliwyd hyn yn briodol gan yr Arweinydd, a nododd mai rhan o'r broses barhaus o ddrafftio CDLIN oedd cymeradwyaeth y Cyngor ar y pryd, ac yn rhan o'r broses a'r amserlen honno roedd angen anfon y Cytundeb Cyflawni a'r Adroddiad Adolygu diwygiedig i'w hadolygu gan Lywodraeth Cymru, a byddai'r dogfennau wedyn yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor i wneud gwaith pellach arnynt a'u hadolygu eto.

Dyweddodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd y rhan fwyaf o'r 53 o ymatebion ayyb wedi arwain at unrhyw newidiadau o bwys o fewn yr adroddiad na'r cytundeb. Roeddent yn fwy tueddol o fod yn ddiwygiadau 'cadw tŷ', hy, ynghylch llifogydd a chais Model Farm. Ailadroddodd y sylwadau a wnaeth ar y mater yn y Pwyllgor Craffu perthnasol blaenorol ynghylch y llinell amser ar gyfer mabwysiadu'r CDLIN, sef y gallai'r Cynghorwyr a gaiff eu hethol yn yr etholiadau Llywodraeth Leol a oedd ar fin cael eu cynnal ym mis Mai fod yn cytuno arni. Roedd hynny'n golygu na fyddai unrhyw gyfle arall i'r cyhoedd ethol pobl yn uniongyrchol i wneud y penderfyniadau hynny'n ddiweddarach. Roedd hefyd am gofnodi ei bryderon ynghylch seilwaith yn rhan o'r CDLIN, yn enwedig o ran y cynnydd mewn llifogydd o fewn y Fro oherwydd y newid hinsawdd, a phwysau hynny ar y rhwydwaith carthffosiaeth.

Adleisiodd y Cynghorydd Robertson bwynt y Cynghorydd Dr Johnson ynghylch y broses ddemocrataidd a phenderfynu ynghylch y CDLIN, a bod hyn yn cyfyngu ar

No.

gyfleoedd i'r cyhoedd fynegi barn ar y mater, fel yr amlinellwyd eisoes gan y Cynghorydd Dr Johnson.

Ymatebodd yr Arweinwyr i bryderon y Cynghorwyr drwy bwysleisio mai ond megis dechrau yr oedd y broses, ac y byddai'r CDLIN yn dod yn ôl i'r Cyngor eto i'w ystyried a'i gadarnhau'n derfynol, felly byddai'r cyhoedd yn dal i gael dweud eu dweud yn y dyfodol. Roedd y llinell amser ar gyfer y broses yn statudol, ac roedd yn rhaid i'r Cyngor gadw ati. Adleisiwyd hyn gan y Cynghorydd Williams, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio, a ailadroddodd mai ond cychwyn y broses oedd hon a bod y camau wedi'u pennu'n glir, gydag ymgynghori eisoes wedi digwydd ar y CDLIN ac ymgynghori pellach ayyb i ddigwydd yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Mahoney am gael cofnodi ei fod yn gwrthwynebu'r adroddiad a'r Cytundeb Cyflawni. Dywedodd y Cynghorydd Robertson y byddai'n atal ei bleidlais pe bai pleidlais ffurfiol yn cael ei chynnal ar y mater.

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r ymatebion i'r sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni drafft a'r Adroddiad Adolygu drafft fel y nodir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig fel y'u hamlinellir yn Atodiad C i'r adroddiad a diweddarau'r Cytundeb Cyflawni drafft a'r Adroddiad Adolygu drafft yn unol â hynny.
- (3) Yn unol â Phenderfyniadau (1) a (2), y dylid cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig a'r Adroddiad Adolygu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.
- (4) Y bydd copïau, yn amodol ar Benderfyniad (3) uchod, ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfa'r Cyngor yn ystod oriau swyddfa arferol a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1&2) Gan ystyried cynnwys y geirda a'r adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (3) Cydymffurfio â dyletswydd statudol y Cyngor dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd).
- (4) Cydymffurfio ag Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd).

1054 POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD DIWYGIEDIG (CYF) –

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar lafar gan fod y Cabinet wedi ystyried y mater yn gynharach yn y dydd cyn i'r mater gael ei gyfeirio i gyfarfod y Cyngor.

Ar 1 Mai, 2021, roedd adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol wneud trefniadau, a chyhoeddi'r trefniadau hynny, er mwyn sicrhau bod modd defnyddio unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall wrth gynnal cyfarfodydd, a fyddai'n galluogi i rai nad oeddent yn bresennol yn yr un lleoliad eu mynychu. Drwy ddefnyddio'r Pwerau Argyfwng, cytunwyd eisoes ar weithdrefn ar gyfer presenoldeb o bell.

O dan adran 46 o'r Ddeddf o 5 Mai, 2022, mae'n rhaid i gyfarfodydd Prif Gyngor wneud trefniadau a'u cyhoeddi er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu darlledu'n electronig fel y gallai'r rhai nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfod weld a chlywed y trafodaethau yr oedd Adran 1.6 o'r adroddiad yn cyfeirio atynt. Roedd paragraffau 2.17 a 2.18 yn yr adroddiad a'r manylion yn y polisi yn esbonio pa lwyfannau cyfarfod a fyddai'n cael eu defnyddio i ddarlledu cyfarfodydd o 5 Mai, 2022 ymlaen.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad a'r Polisi, gyda diwygiad i baragraff 6.7 o'r Polisi fel y byddai'n ymddangos fel "Cyfranogwr mewn cyfarfod (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6.1 uchod) sy'n dymuno siarad yn Gymraeg neu berson sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Cyfieithu laith, mewn cyfarfod gysylltu â'r Gwasanaethau Democraidaidd o leiaf 72 awr cyn y cyfarfod", a eiliwyd yn briodol gan y Dirprwy Arweinydd.

Dywedodd y Cyngorydd Dr Johnson y byddai adolygiad mewn tua blwyddyn o'r modd yr oedd y diwygiad a gynigiwyd ynghylch y cais i siarad Cymraeg a derbyn Gwasanaeth Cyfieithu o'r Gymraeg yn gweithio'n ymarferol, a dywedodd yr Arweinydd a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd y byddai hyn yn cael ei ystyried. Er mwyn egluro'r geiriad newydd ym mharagraff 6.7, cadarnhawyd bod hyn yn cyfeirio at sicrhau bod Swyddogion y Cyngor yn cael rhybudd i sicrhau bod y cyfleuster cyfieithu / siarad Cymraeg ar gael, hy, trefnu bod cyfieithydd Cymraeg yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi bod Gweithdrefn gyfredol Presenoldeb o Bell mewn Cyfarfodydd y Cyngor o fewn Cyfansoddiad y Cyngor wedi'i hadolygu yn unol â darpariaethau Adrannau 46 a 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Interim Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd Aml-leoliad (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021).

(2) Cymeradwyo a chymeradwyo'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn gynharach yn y dydd a chymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft, sydd

ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, ynghyd â'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft, a'u bod yn cael eu cymeradwyo. cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

(3) BOD yr adroddiad, y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft yn Atodiad A a gymeradwywyd gan y Cabinet yn gynharach yn y dydd, gan gynnwys diwygio paragraff 6.7 o'r Polisi i ddarllen "Cyfranogwr mewn cyfarfod (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6.1 uchod) sy'n dymuno siarad yn Gymraeg neu berson sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg, mewn cyfarfod mae'n ofynnol i gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf 72 awr cyn y cyfarfod", cael ei gymeradwyo a'i gynnwys o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

(4) Dylid cynnal adolygiad o'r Polisi ar ôl derbyn unrhyw ganllawiau statudol pellach gan Lywodraeth Cymru, neu unrhyw ofynion hygyrchedd pellach a rhwymedigaethau Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol.

(2) Er mwyn i Bolisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad gael ei gymeradwyo i fod ar waith erbyn 5 Mai 2022.

(3) Er mwyn cydymffurfio â rhif 33 Safonau'r Gymraeg y Cyngor.

(4) Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a dderbyniwyd, gofynion hygyrchedd a rhwymedigaethau'r Cyngor o ran Cyfranogiad y Cyhoedd.

1055 CANLLAW CYFANSODDIAD MODEL DRAFFT (CYF) –

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar lafar gan fod y Cabinet wedi ystyried y mater yn gynharach yn y dydd cyn i'r mater gael ei gyfeirio i gyfarfod y Cyngor.

Roedd Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Brif Gynghorau i gyhoeddi Canllaw i'r Cyfansoddiad, ac i gyhoeddi Cyfansoddiad y Cyngor a'r Canllaw yn electronig. Hynny yw, canllaw i leygwyr ar y Cyfansoddiad oedd hwn.

Roedd Cyfansoddiad y Cyngor wedi bod ar gael yn electronig ers peth amser ond, o 5 Mai, 2022, byddai'n rhaid paratoi Canllaw a oedd yn esbonio'r Cyfansoddiad mewn iaith gyffredin a'i gyhoeddi'n electronig hefyd.

Comisiynwyd Browne Jacobson (Cyfreithwyr) gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan i baratoi Cyfansoddiad Enghreifftiol Drafft a Chanllaw Enghreifftiol Drafft i'r Cyfansoddiad

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2022 cytunwyd ar nifer o ddiwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor hwn yn gysylltiedig â darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yr oedd yn ofynnol iddynt fod yn eu lle erbyn 5 Mai, 2022

No.

Fel y crybwyllir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad, ac ystyried bod Etholiadau Llywodraeth Leol ar y gorwel ym mis Mai 2022, os bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu hargymell i swyddogaethau dewis lleol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor, yn dilyn trafodaethau â'r Weinyddiaeth newydd, bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno rhagor o adroddiadau i'w hystyried fel bo'n briodol.

Ar ôl cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft a ystyriwyd yn gynharach yn y cyfarfod hwn, byddai'r holl ddiwygiadau, gan gynnwys y rhai y cytunwyd arnynt ar 7 Mawrth, 2022 yn cael eu cynnwys o fewn Cyfansoddiad diwygiedig a fyddai'n cael ei rannu â'r holl Aelodau a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ynghyd â'r Canllaw Drafft, pe bai'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor, erbyn 5 Mai, 2022 ar yr hwyraf.

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid diwygio pob cyfeiriad at y defnydd o'r term "Pwyllgor Gwaith" ar gyfer corff gwneud penderfyniadau'r Cyngor i ddarllen "Cabinet" yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- (2) Cymeradwyo'r adroddiad a'r Canllaw Model Cyfansoddiad drafft, sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, i'w cyhoeddi a'u lanlwytho i wefan y Cyngor.
- (3) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i fynd i'r afael ag unrhyw wallau teipio a gwneud unrhyw fân newidiadau yng Nghanllaw Cyfansoddiad y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Rhoi sylw i ddeddfwriaeth ac er budd eglurder ac at ddibenion cysondeb.
- (2) Gan roi sylw i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- (3) Er mwyn gallu diwygio Canllaw Cyfansoddiad y Cyngor fel y bo'n briodol.

1056 RHAGLEN TWF Y BARRI (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C873, 14 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

No.

1057 BWSARIAETH CYCHWYN BUSNES BRO MORGANNWG (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C874, 14 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1058 CYNLLUN CYFLAWNI GRANT CYMORTH TAI 2022-2025 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C875, 14 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1059 GWASANAETH TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV) – TREFNIADAU AR GYFER Y DYFODOL (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C876, 14 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1060 CONTRACT PEIRIANNEG AR GYFER LLAFUR UNIONGYRCHOL A CHONTRACT YN ÔL Y GALW PEIRIANNAU 2022-2024 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C878, 14 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

No.

1061 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2023/2024 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C893, 28 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1062 CYNLLUN BUSNES A STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022 – 2032) (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C894, 28 Mawrth, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1063 RHAGLEN DIGWYDDIADAU ARFAETHEDIG 2022– 2023 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C908, 11 Ebrill, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

1064 EHANGU YSGOL Y DERI – DERBYN TENDR (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C906 a C912, 11 Ebrill, 2022 (fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

No.

(DS. Gofynnodd y Cyngorydd Penrose am gael cofnodi ei wrthwynebiad i'r ymarfer caffael.)

1065 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **Cwestiwn gan y Cyngorydd A.R. Robertson**

Ac ystyried bod cynifer o goed ynn ar dir Cyngor Bro Morgannwg, yn enwedig ar hyd y priffyrdd, pa gynlluniau sydd gan Gyngor Bro Morgannwg yn eu lle i ymdrin ag achosion o'r clefyd coed ynn sy'n debygol o ladd y rhan fwyaf o'r coed hynny dros y tair blynedd nesaf? Mae'r perygl i bobl ac eiddo os bydd canghennau'n disgyn, y gost o dorri coed yr effeithir arnynt i lawr a phlannu coed newydd yn eu lle, oll yn broblemau.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd ein swyddogion yng nghanol y camau olaf o ddrafftio Strategaeth Coed i'r Fro gyfan a fyddai'n cynnwys Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn. Rhagwelwyd y byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ac i'r pwyllgorau craffu perthnasol i'w hystyried ac i gytuno arni'n ddiweddarach eleni.

Y sefyllfa bresennol oedd fod yr holl goed ynn yn ein parciau, ein mannau agored ac ardaloedd priffyrdd mabwysiedig yn cael eu monitro, a'u cyflwr yn cael ei asesu naill ai bob 12 mis neu 6 mis drwy ddefnyddio'r fynegai Dosbarthu lechyd Clefyd Coed Ynn, ac roedd cyllidebau presennol ar gyfer cynnal a chadw coed yn cael eu defnyddio i gwblhau unrhyw waith adfer, fel torri coed i lawr.

Fel gwyddai'r Cyngorydd Robertson, roedd y Cyngor wedi datgan Argyfwng Natur, ac er mwyn helpu i leihau'r golled o ran coed/y gostyngiad mewn brigdwf, cynhaliom waith ailblannu a dad-ddofi'r tir drwy ddefnyddio cyllid a llafur o ystod o ffynonellau, fel cyllid A106, grantiau allanol, cyllid adnewyddu asedau, cynnwys grwpiau defnyddwyr a chynlluniau noddi a neilltuo coed gan breswylwyr unigol.

Os bydd coed â chlefyd arnynt yn cael eu riportio neu eu cofnodi ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, neu mewn ardaloedd eraill o dir preifat lle gallent achosi perygl i'r cyhoedd, byddwn yn hysbysu'r tîrfeddiannwr ynghylch ei rwymedigaethau i wneud y goeden yn ddiogel.

Atodol

Gofynnodd y Cyngorydd Robertson a oedd y Cyngor wedi gallu amcangyfrif unrhyw gostau'n gysylltiedig â hyn, yn ogystal ag effaith y clefyd ar Fro

No.

Morgannwg, ee ar draffig ar ei phriffyrdd a phobl sy'n cerdded heibio ar lwybrau troed, ynghyd â nifer y tyfwyr coed a oedd yn gweithio ar hyn ar ran y Cyngor. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet, er bod gan y Cyngor syniad da o leoliad ei goed ynn ar ei dir ei hun, roedd y dasg o asesu coed yr oedd hyn yn effeithio arnynt ar dir preifat yn fwy anodd. Yn yr achosion hynny, y tiffeddiannwr a fyddai'n gyfrifol am y costau'n gysylltiedig ag ymdrin â choed â chlefyd arnynt. Ar hyn o bryd, roedd y mater yn cael ei reoli o fewn cyllideb bresennol y Cyngor ar gyfer tir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Gallai amcangyfrif o'r clefyd coed ynn fod mor uchel â 90% yn y dyfodol, gyda'r 10% o goed gwydn a oedd yn weddill yn asgwrn cefn i'r rhywogaeth a fyddai'n cael ei chadw. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth yn dal i gael ei chasglu am y clefyd hwn, ond roedd hi'n debygol y byddai'r gost o gynnal y coed yn cynyddu wrth i fwy o goed ddirywio.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.C. Kemp**

Ar 6 Rhagfyr, 2021 mewn ateb i gwestiwn gan Dr. Barratt rhoddwyd amcanestyniad gennych o niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd South Point. A yw'r ffigurau hynny'n dal yn gywir, ac os ddim beth yw'r ffigurau cyfredol?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio.

Ar hyn o bryd roedd 83 o ddisgyblion cynradd ac 11 o ddisgyblion meithrin yn mynychu Ysgol Gynradd South Point ers i'r adeilad newydd agor ar 2 Mawrth, 2022. Roedd 16 o blant wedi ymuno â'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, yr oedd 12 ohonynt yn byw yn y Rhws, gydag 11 wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd eraill a 5 yn ddechreuwy'r newydd a oedd wedi symud i mewn i Fro Morgannwg, gyda 4 o'r rheiny yn byw yn y Rhws. Ar sail nifer y disgyblion ar gofrestr gyfredol yr ysgol, roedd 60% o gapasiti dros ben o ran disgyblion cynradd a 54% o gapasiti dros ben o ran disgyblion meithrin. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion felly, ac roeddem yn disgwyl i'r niferoedd gynyddu gan fod gan yr ysgol bellach bresenoldeb gweledol yn yr ardal.

Yn yr amcanestyniad disgyblion a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer y cynnig, rhagwelwyd y byddai gan Ysgol Gynradd South Point 94 o ddisgyblion ar y gofrestr wrth drosglwyddo i'r safle newydd, ac y byddai 349 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd y Rhws.

Atodol

Mynegodd y Cynghorydd Kemp bryder ynghylch y niferoedd cymharol isel a roddwyd y tro diwethaf, a gofynnodd a allai'r Aelod Cabinet ddweud pryd yr oedd yn rhagweld y byddai'r ysgol yn gweithredu ar gapasiti llawn.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd y galw llawn a ragwelwyd am leoedd ysgol wedi'i wireddu eto; y rheswm pennaf am hyn oedd bod datblygiad tai allweddol heb ddod yn ei flaen eto, ond y gallai hynny ddigwydd

No.

yn y dyfodol agos. Roedd angen i'r Cyngor felly weithio'n unol â'r rhagdybiaeth y byddai'r galw am leoedd ysgol yn cynyddu pan fyddai'r datblygiad yn cael ei gwblhau. Dywedodd nad oedd yn wyddoniaeth berffaith, gan ei bod yn dibynnu ar ddewis rhieni.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.C. Kemp**

Pa gynnydd a gafwyd o ran gweithredu Penderfyniadau (2) a (3) o Gofnod Cabinet 871 (14 Mawrth, 2022) - Gwaredu Tir Dros Ben - Ysgol Gynradd Llancarfan, Llancarfan.

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio.

Ers penderfyniad y Cabinet ym mis Mawrth 2022 i ddatgan nad oedd angen safle Ysgol Gynradd Llancarfan mwyach, roedd Swyddogion wedi bod yn cynnal adolygiad diwydrwydd dyladwy o weithdrefnau statudol cyn gwaredu'r tir. Y gobaith oedd y byddai'r broses adolygu hon yn cael ei chwblhau erbyn diwedd y mis. Byddai'r gwaith paratoi ar gyfer marchnata'r safle yn cychwyn cyn gynted â phosibl yn dilyn canlyniad yr adolygiad diwydrwydd dyladwy gyda'r nod o gael gwared ar y safle ar y cyfle cyntaf, tra'n sicrhau y dilynir unrhyw brosesau statudol a nodir yn rhan o'r adolygiad diwydrwydd dyladwy.

Atodol

Holodd y Cynghorydd Kemp ynghylch y posibilrwydd o werthu'r safle i'r Cyngor Cymuned lleol neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac a fyddai hyn yn effeithio ar y pris, a chyfeiriodd gynnig posibl gan ddatblygwr i'r Cyngor a roddai bris o dros £1m am y tir.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd wedi cynnal trafodaeth ar y lefel honno â swyddogion y Cyngor gan fod yr etholiad ar y gorwel. Roedd adolygiad diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal o hyn ar hyn o bryd, a byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r Cyngor Cymuned lleol ayyb cyn dechrau marchnata ayyb y safle.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am statws ceisiadau cynllunio yn gysylltiedig â Llosgydd Dociau'r Barri.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Ar ôl i'r Cyngor gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi (HG) ym mis Medi 2021, cyflwynwyd apêl yn erbyn yr Hysbysiad i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ar 15 Hydref, 2021. Ers cyflwyno'r apêl honno, roedd Barry Biomass UK No.2 Ltd hefyd wedi cyflwyno apêl yn erbyn diffyg penderfyniad gan y Cyngor

No.

ynghylch cais a geisiai gyflawni'r holl amodau cynllunio a oedd yn weddill yn gysylltiedig â'r cyfleuster ynni adnewyddadwy (2015/00031/5/CD) ac roedd wedi gofyn am gael ystyried y ddwy apêl ar y cyd.

Ym mis Rhagfyr 2021, hysbyswyd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru fod apeliadau a gyflwynwyd yn erbyn yr HG wedi cael eu 'galw i mewn' - hy, Gweinidogion Cymru, yn hytrach na'r arolygydd apeliadau penodedig, fyddai'n penderfynu ynghylch yr apeliadau. Ym mis Ionawr 2022, hysbyswyd y Cyngor gan PEDW mai'r datblygiad dan sylw yn yr HG oedd datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau AEA, ac roedd Gweinidogion Cymru felly wedi rhoi cyfarwyddyd sgrinio, gan gyfarwyddo mai datblygiad AEA oedd y datblygiad a oedd dan sylw yn yr apêl.

Ysgrifennodd PEDW wedyn at yr apelydd ynghylch y penderfyniad i roi cyfarwyddyd sgrinio gan ddweud bod yn rhaid cyflwyno Datganiad Amgylcheddol (DA) i gyd-fynd â'r apêl erbyn 13 Ebrill 2022, a dywedodd yr apelydd wrth PEDW y byddai DA ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn y dyddiad hwnnw. Nid oedd PEDW wedi hysbysu'r Cyngor ynghylch a oedd yr wybodaeth honno wedi dod i law, ac roedd swyddogion yn gofyn i PEDW gadarnhau hynny. Ochr yn ochr â hynny, roedd y Cyngor yn aros am gadarnhad gan PEDW ynghylch sut y byddai'r apêl yn mynd rhagddi a'r amserlenni perthnasol ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r apêl. Rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd ar ôl derbyn y DA gan yr apelydd.

Byddai'r Aelod Cabinet yn sicrhau bod unrhyw newyddion ynghylch yr apêl yn cael ei rannu â'r Aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson am gadarnhad nad oedd gan Gyngor Bro Morgannwg unrhyw gyfrifoldebau i benderfynu ynghylch unrhyw geisiadau'n gysylltiedig â'r safle.

Atebodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud bod y Cynghorydd Dr Johnson wedi deall hyn yn gywir, a bod hyn bellach yn nwylo'r llywodraeth ganolog.

(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson

Bu cyhoeddiad yn ddiweddar y byddai marchnad wythnosol y Barri ar Heol Holton yn cau. Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei roi i fusnesau lleol sy'n masnachu yno, ac y mae eu dyfodol o dan fygythiad?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio.

Roedd y Cyngor yn siomedig o glywed bod gweithredwr y farchnad wedi penderfynu cau'r farchnad wythnosol, ond yn deall y rhesymau wrth wraidd hynny. Roedd nifer y stondinau wedi gostwng yn sylweddol dros gyfnod o amser ac roedd gweithredwyr y farchnad yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu cefnogi drwy gyfnod economaidd heriol i fusnesau canol tref. Roedd gwahoddiad i dendro

No.

newydd yn cael ei ddrafftio, a'i fwriad oedd ehangu cwmpas y cyfleoedd i unrhyw weithredwr yn Sgwâr y Brenin a'r cyffiniau. Gobeithiai'r Cyngor y gallai rhai o'r masnachwyr presennol weithredu o dan weithredwr newydd, a byddai'n rhoi gwybodaeth am gynnydd i unrhyw un ohonynt a oedd wedi gofyn am hynny.

Roedd y Cyngor yn parhau i gefnogi holl ganol trefi Bro Morgannwg, ac yn enwedig Heol Holton, drwy'r Cynllun Benthyciadau Trawsnewid Trefi. Drwy'r Cynllun hwnnw roedd Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu dros £1.3m i'r Cyngor, ac roedd £1miliwn o'r arian wedi cael ei ddyrannu i brosiectau a oedd ar y gweill. Roedd Cynllun Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi ar wahân hefyd wedi darparu dros £500k i gefnogi'r cynlluniau amrywiol yng nghanol y dref, gan gynnwys cymorth i osod system TCC newydd yn lle'r hen un, a gwelliannau teithio llesol. Yn ogystal â hynny, roedd Cynllun Porth Canol Tref y Barri, a anelai i ddatblygu cyfleusterau iechyd a llety preswyl newydd ar ben Heol Holton a Broad Street, yn parhau i fynd rhagddo gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn yr ardaloedd hyn.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd hi'n bwysig nodi bod £14miliwn o gyllid dangosol wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, a oedd yn cael ei ddarparu yn lle cyllid yr UE. Nid oedd canllawiau clir wedi'u rhoi eto ynghylch sut roedd y Cyngor i fod i gyrchu na defnyddio'r gronfa hon, a oedd yn gyllid refeniw yn bennaf, er y byddai cefnogi economi canol trefi ymhlith prif nodau'r cyllid.

Yn olaf, roedd y Cyngor ar ganol datblygu ei gais ar gyfer ail gylch Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Byddai hyn yn cynnwys prosiectau o amgylch Glannau'r Barri, gan gynnwys datblygu marina a darparu mannau cyflogaeth newydd a chyfleuster cymunedol newydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Dŵr. Byddai cysylltu'r Glannau'r Barri mewn modd cynaliadwy â chanol y dref yn nod allweddol i Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a byddai hyn hefyd o gymorth i gefnogi masnachwyr.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson am sicrwydd ynghylch y gefnogaeth ehangach y gellid ei rhoi i'r busnesau hynny a fyddai ar eu colled yn sgil cau'r marchnad, a hynny heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain, a fyddai heb unrhyw le i fasnachu am fisoedd, ar ôl buddsoddi yn eu cyfarpar a'u gweithrediadau eu hunain i fod yn rhan o Farchnad y Barri.

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion o fewn Tîm Economi'r Cyngor wedi bod mewn cysylltiad â rhai o fasnachwyr y farchnad i gynnig cefnogaeth, ac o'r rhai a oedd wedi gofyn am gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau, byddent yn cael gwybod am gynnydd ayyb ar ôl cael hyd i weithredwr newydd ar gyfer y farchnad. Roedd masnachwyr hefyd wedi cael cefnogaeth drwy sefydlu siopau dros dro ayyb.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Faint o eiddo preswyl sy'n disgwyl am fan parcio anabl, a beth yw (a) yr amser aros cyfartalog, a (b) yr amser aros hiraf, ar gyfer eiddo a oedd yn disgwyl i'r cais gael ei gwblhau, o'r adeg pan oedd y cais wedi'i gymeradwyo.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdoqaeth a Thrafnidiaeth

Roedd pedwar deg wyth o geisiadau ar y rhestr aros ar gyfer mannau parcio i bobl anabl ar hyn o bryd.

Roedd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r deg cais cyntaf ar y rhestr yn y flwyddyn ariannol hon 2022/2023, ac roeddent wedi bod yn aros i'w ceisiadau gael eu gweithredu ers mis Ionawr-Mehefin 2020.

Yr amser cyfartalog i osod man parcio oedd dwy flynedd, ond bu cynnydd mawr yn nifer y ceisiadau dros y ddwy flynedd diwethaf yn sgil Covid-19 a'r cynnydd yn y galw am fannau parcio ar y ffordd, gyda nifer cynyddol o breswylwyr bellach yn gweithio gartref. Rhagwelwyd felly y byddai'r amser aros cyfartalog yn cynyddu yn sgil hynny.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson beth oedd wrth wraidd yr oedi cyn gweithredu mannau parcio i rai pobl a oedd eisoes wedi cael eu hasesu ac y cytunwyd bod arnynt angen man parcio anabl, hy, a oedd hyn yn fater cyllidebol?

Atebodd yr Aelod Cabinet, pe bai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn penderfynu bod angen gosod man parcio anabl, byddent yn ariannu hynny. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ofyniad statudol i'r Adran Briffyrdd, felly roedd wedi neilltuo oddeutu £15k o'i chyllideb, yn sgil cyfyngiadau cyllidebol. Roedd y Cyngor yn ymdrin â'r rhai ar ben uchaf y rhestr ar gyfer mannau parcio anabl a oedd wedi aros hiraf, ac roedd y gwaith yn cael ei wneud ar gyfres o gartrefi, er mwyn helpu i leihau costau cyfreithiol yn sgil cyllideb gyfyngedig y Cyngor.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

A all yr aelod Cabinet perthnasol roi'r newyddion diweddaraf am y cymorth y mae Cyngor Bro Morgannwg yn ei roi i ffoaduriaid a cheiswyr lloches o dan gynlluniau'n gysylltiedig ag (a) Wcráin, (b), Affganistan ac (c) Syria?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau (ar ran yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladu)

Ers 2016, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cefnogi noddwyr cymunedol i groesawu tri theulu i'r ardal, yn ychwanegol at y deunaw teulu y mae wedi rhoi llety iddynt a'u cefnogi'n uniongyrchol naill ai drwy'r hen Gynllun Adsefydlu Pobl

No.

sy'n Agored i Niwed neu Gynllun Adsefydlu cyfredol y DU i deuluoedd o Syria ac Affganistan.

Dros y misoedd diwethaf, roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi dangos ymrwymiad pellach i gefnogi'r bobl a oedd yn fwyaf agored i niwed drwy gydweithredu â'r Swyddfa Gartref i gynnig cymorth i nifer o deuluoedd o Affganistan, a gynhaliwyd yn y Sir, yn sgil ymgilio o'r wlad.

O ran sefyllfa Wcráin, roedd y Cyngor yn gweithio'n rhanbarthol gyda Chyngor Caerdydd i gyflawni Cynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU a Chynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru. Roedd Gweithwyr Cymorth Ffoaduriaid yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd i roi cefnogaeth gofleidiol i'r lletywyr a'r teuluoedd, a fyddai'n cynnwys cynnal gwiriadau cyn ac ar ôl cyrraedd a sicrhau bod gan westeion fynediad at ystod eang o wasanaethau allweddol, gan gynnwys iechyd, cyflogaeth ac addysg. Nes i'r Gweithwyr Cymorth ddechrau eu swyddi, roedd staff presennol o'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a Thai wedi bod yn cynnal ymweliadau â lletywyr ac yn cynnal gwiriadau ar eiddo.

Roedd Grŵp Gweithredol wedi cael ei sefydlu o fewn y Cyngor er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodiad y bobl, ac i sicrhau bod prosesau ar waith i drafod agweddau fel diogelu, derbyn addysg a gofal plant, materion ariannol a sefydlu rhwydweithiau cymorth lleol. Yn ogystal â hynny, roedd hyb i ddyfodiaid wedi cael ei sefydlu yn y maes awyr er mwyn helpu'r rhai a oedd yn cyrraedd yn annisgwyl i gael llety dros dro a threfnu i deithio ymlaen i'r gyrchfan yr oeddent yn anelu ati.

Atodol

Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn gobeithio y byddai lefel y gefnogaeth a gynnigir i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn parhau, a gofynnodd beth oedd lefelau cyfredol yr ymrwymiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i barhau â'r gwaith hwn.

Atebodd yr Arweinydd drwy ddweud nad oedd modd rhoi union fanylion na ffigurau ar hyn o bryd gan fod y rhain yn cael eu cyfrifo ar sail nifer y ffoaduriaid, ayyb a oedd yn dod i Gymru a'u hanghenion, ond Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a oedd yn talu'r costau sylfaenol oherwydd y nifer parhaus o ffoaduriaid, ayyb, a oedd yn dod i mewn i Gymru. Roedd y sefyllfa o ran Wcraniaid fymryn yn wahanol gan mai ffoaduriaid yr oeddent yn hytrach na cheiswyr lloches, ac roedd oddeutu 46 o deuluoedd cynhaliol o fewn y Fro wedi cynnig agor eu cartrefi i ffoaduriaid yn barod, gyda rhai o'r ffoaduriaid wedi cyrraedd, ac eraill am gyrraedd cyn hir. Gallai nifer fwy o ffoaduriaid fod yn y Fro eisoes drwy'r Cynllun Teuluoedd neu Gynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru.

1066 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cyflwynwyd y cwestiynau a rhoddwyd yr atebion canlynol, yn unol â'r protocol a gytunwyd gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mrs. Aoife Blight**

Deallaf fod nifer o elyrch dof wedi'u canfod yn farw yn Llyn y Knap, a'n bod wedi cael cadarnhad mai ffliw adar oedd wrth wraidd hynny. Mae ffliw adar yn lledu o aderyn i aderyn drwy gyswllt uniongyrchol neu drwy hylifau corfforol ac ysgarthion halogedig. Gall hefyd ledu drwy fwyd a dŵr halogedig, yn ogystal â cherbydau, dillad ac esgidiau halogedig. Ac ystyried y nifer fawr o ymwelwyr o amgylch y llyn, a wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf inni ynghylch y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd a bywyd gwylt, yn enwedig pa drefn lanhau a bwydo dros dro y mae'r Cyngor yn ei chynnal?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Yn anffodus, roedd achosion o ffliw adar yn y boblogaeth o adar gwylt wedi effeithio ar Llyn y Knap, fel llawer o ardaloedd eraill ar draws y wlad. Oherwydd natur y boblogaeth o adar gwylt, nid oedd modd gweithredu'r mesurau ffliw adar rhagnodol arferol a oedd yn ofynnol yn achos adar cadw. Fodd bynnag, cyn gynted ag y cafodd y Cyngor wybod am yr achos cyntaf a gadarnhawyd o ffliw adar yn Llyn y Knap, rhoddwyd y mesurau canlynol ar waith:

- Gosodwyd arwyddion mewn gwahanol leoliadau o amgylch Llyn y Knap yn hysbysu aelodau'r cyhoedd bod ffliw adar wedi'i gadarnhau a bod gwaharddiad ar fwydo adar;
- Roedd yr arwyddion yn esbonio sut y dylai aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am unrhyw adar marw y gallent ddod o hyd iddynt (drwy linell gymorth yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar 03459 335577).
- Cafodd yr ardal o amgylch y llyn ei sgubo'n amlach gan lanhau baw adar / bwyd o'r llwybr troed;
- Roedd staff y Cyngor a oedd yn mynd i'r safle i symud adar marw wedi bod yn cadw at asesiadau risg lechyd a Diogelwch cymeradwy, gan gynnwys gwisgo PPE priodol a defnyddio diheintydd priodol i leihau unrhyw risg o halogiad.
- Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd ynghylch y mesurau a roddwyd ar waith;
- Roedd aelodau o'r cyhoedd a welwyd yn bwydo'r adar wedi cael gwybod gan Wardeiniaid y Parc fod hynny wedi'i wahardd gan fod achosion o ffliw adar wedi'u cadarnhau.
- Roedd y siopau lleol wedi cael gwybod am bresenoldeb ffliw adar, bod bwydo'r adar wedi'i wahardd o ganlyniad i hynny, ac felly na ddylid gwerthu bwyd adar i'r cyhoedd.

No.

Roedd y Cyngor hefyd wedi gofyn am gyngor ac arweiniad gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ogystal â Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac wedi dilyn y canllawiau a roddwyd gan yr asiantaethau partner hyn ar ddiogelu aelodau o'r cyhoedd a staff y Cyngor.

(ii) **Cwestiwn gan Mrs. Aoife Blight**

Mae newidiadau diweddar i'r Cod Priffyrdd yn rhoi'r flaenoriaeth i gerddwyr sy'n ceisio croesi'r ffordd. Mae hyn wedi amlygu pa mor beryglus yw'r Barri ar hyn o bryd i gerddwyr, yn enwedig ar hyd Heol y Parc. Er enghraifft, mae cyffordd Heol y Parc/Heol Parc Romilly/Old Village Road yn eithriadol o beryglus, ac mae angen nifer o groesfannau i gerddwyr fel bo modd i drigolion ac ymwelwyr gael mynediad i Gastell y Barri a Pharc Romilly. Mae'r gyffordd hon hefyd ar y ffordd i ddau gyfleuster gofal plant poblogaidd yn yr ardal, Grŵp Chwarae Westend a Meithrinfa St Aubin, sy'n creu perygl i rieni a phlant ifanc wrth iddynt gerdded i'r ysgol. A allai'r Cyngor gynnal archwiliad o ddiogelwch y gyffordd hon, gyda golwg ar osod croesfannau mwy diogel i gerddwyr? A fyddent hefyd yn ystyried aiddylunio'r llwybr hwn a llwybrau eraill yn y Barri er mwyn annog mwy o deithio llesol yn unol â'u cynlluniau ar gyfer y Prosiect Sero?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Un o'r newidiadau pwysig a gyflwynwyd i'r Cod Priffyrdd oedd y dylai defnyddwyr y ffordd, yn enwedig gyrwyr a beicwyr modur, bellach ildio wrth gyffyrdd i gerddwyr a oedd yn croesi neu'n disgwyl croesi ffordd yr oeddent yn troi i mewn iddi neu allan ohoni. Roedd rheolau eraill newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr ffordd ildio i gerddwyr a oedd yn disgwyl croesi ar groesfan sebra, ac i gerddwyr a beicwyr a oedd yn disgwyl croesi croesfan gyfochrog. Cyn hynny nid oedd ond angen ildio os oedd y cerddwyr/beicwyr eisoes ar y groesfan.

Ar y cyfan, roedd yr Aelod Cabinet yn ystyried bod y rheolau newydd hyn yn gam cadarnhaol tuag at gynyddu diogelwch defnyddwyr ffordd a oedd yn agored i niwed, fel cerddwyr, beicwyr a marchogion, yn enwedig o ystyried y pwyslais ar annog teithio llesol i leihau allyriadau carbon drwy'r Prosiect Sero a chynyddu ymdeimlad o lesiant, a pholisïau'r Fro a Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw.

Nid oedd yn cytuno â'r awgrym bod y newidiadau i'r Cod Priffyrdd newydd wedi amlygu pa mor beryglus oedd y Barri i gerddwyr, gan nad oedd unrhyw gydberthynas rhwng y rheolau newydd a diogelwch ar y cyffyrdd unigol a amlygwyd. Unig fwrriad y Cod oedd gwella diogelwch defnyddwyr ffordd a oedd yn agored i niwed yn gyffredinol ar draws y rhwydweithiau priffordd yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth o ddifrifol iawn i ddiogelwch ar ei rwydwaith ffyrdd lleol. Er bod ardal cyffordd Heol y Parc / Heol Parc Romilly / Old Village Road yn cyfuno amryw o ffyrdd, ac felly o led sylweddol, nid oedd hynny yn do'i hun yn peri bod y gyffordd yn anniogel. Roedd gwelededd da ar y gyffordd i bob cyfeiriad, o safbwynt traffig a oedd yn dod at y gyffordd a'r cerddwyr ar y ffordd, ac nid oedd unrhyw gofnod o ddigwyddiadau

No.

na gwrthdrawiadau blaenorol a fyddai'n awgrymu nad oedd ardal y gyffordd yn ddiogel, ac fel y soniwyd uchod ni allai'r newidiadau newydd o ran hierarchaeth yn y Cod Priffyrdd ond cynyddu diogelwch cerddwyr wrth groesi unrhyw gyffordd.

Pe bai cerddwyr yn teimlo'n bryderus ynghylch croesi yn y fan hon, roedd llwybr troed di-dor o ansawdd da ar ochr arall y ffordd y gellid ei ddefnyddio i gyrraedd amryw o gyrchfannau ar hyd y ffordd yn ddiogel. Nid oedd yr Aelod Cabinet felly o'r farn fod angen cynnal archwiliad o ddiogelwch y lleoliad hwn ar y pryd.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o allu dweud bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â sawl cynllun Teithio Llesol ledled y Fro, ac anogodd preswylwyr ym mhob ardal i gyrchu'r wybodaeth a oedd ar gael am Deithio Llesol ar wefan y Fro ac i gyfrannu at y trafodaethau a'r ymgynghoriadau parhaus fel bo modd datblygu llwybrau Teithio Llesol effeithiol o ansawdd da ar gyfer y dyfodol.

(iii) **Cwestiwn gan Mrs. Aoife Blight**

Mae cyflwr y Watchtower yn y Knap yn destun pryder, ac mae llawer o breswylwyr am gael sicrwydd y bydd yr adeilad eiconig hwn, a hoffir yn fawr, yn cael ei warchod er mwyn i genedlaethau ei fwynhau yn y dyfodol. Er bod yr adeilad bellach yn eiddo preifat, a allai'r Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am unrhyw gynlluniau ar ei gyfer i'r dyfodol?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdoqaeth a Thrafnidiaeth

Gan fod yr adeilad bellach yn eiddo preifat, y perchennog oedd yn gyfrifol am unrhyw waith cynnal a chadw ac atgyweirio.

Yn yr arolwg diweddaraf o Adeiladau sydd Mewn Perygl a gynhaliwyd gan CADW ar ran Llywodraeth Cymru yn 2016, nodwyd bod y Watch Tower yn adeilad â blaenoriaeth ganolig.

Roedd diweddariad yr arolwg yn hwyr (oherwydd Covid) ac roedd disgwyl y byddai'n cael ei gynnal yn hwyr yn 2023. Serch hynny, hysbyswyd yr Aelod Cabinet y byddai'r Adran Gynllunio yn canfod y perchennog ac yn ei atgoffa o'i gyfrifoldeb yn gysylltiedig â statws rhestredig yr adeilad.

(iv) **Cwestiwn gan Mr. Donald Reynolds**

Mae gan Barri hanes cyfoethog, hanes y gall ymfalchïo ynddo. Byddai taith gylchol o amgylch Doc Rhif 1 i archwilio'r hanes hwn yn atyniad gwych a phoblogaidd i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr â'r ardal. A fyddech chi'r Cyngor yn cefnogi'r alwad i greu cylchdaith fel hyn i gerddwyr, beicwyr a busnesau, yn debyg iawn i'r hyn a geir ym Mae Caerdydd?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ynghylch llwybrau Teithio Llesol a oedd yn cynnwys Dociau'r Barri ac roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cydnabod bod angen llwybr addas i gysylltu'r Dociau ag ardal ehangach y Glannau a'r dref. Roedd y Cyngor hefyd wedi comisiynu gwaith uwchgynllunio economaidd a gofodol ar gyfer y Barri fel rhan o'i gais am gyllid gan Lywodraeth y DU yn rhan o agenda Codi'r Gwastad. Nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau eto, ond roedd cydnabyddiaeth eisoes o bwysigrwydd cysylltu'r glannau â gweddill y Barri a'r cyfle a fodolai i wella'r cysylltiadau teithio llesol o amgylch y Dociau.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ganfod ffrydiau cyllido posibl er mwyn helpu i gyflawni gwelliannau teithio llesol a theithio cynaliadwy o amgylch y Glannau a'r Dociau, ac i wella cysylltiadau â chanol y dref ac ardaloedd ehangach y Barri.

Heblaw am hyn i gyd, byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor eisoes wedi gwella'r cysylltiadau o hen ardal y dociau i ganol y dref ac i'r Stryd Fawr, yn rhan o'r gwaith i adfywio ardal y glannau, drwy gyflwyno cysylltiadau ychwanegol a gwell i gerddwyr a cherbydau.

(v) Cwestiwn gan Dr. Alexander Barratt

Pa effaith y mae'r weithred ddiweddar o gau Ysgol Gynradd Llancarfan ac agor Ysgol Gynradd South Point yn y Rhws wedi'i chael ar nifer a chyfran y lleoedd gwag mewn ysgolion yng Ngorllewin y Fro?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Roedd lle i 126 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd wreiddiol Llancarfan ac nid oedd yn cynnwys darpariaeth feithrin. Roedd gan ysgol newydd Ysgol Gynradd South Point lle i 210 o ddisgyblion a lle i 48 o ddisgyblion meithrin rhan-amser.

Ar hyn o bryd roedd 83 o ddisgyblion cynradd ac 11 o ddisgyblion meithrin yn mynychu Ysgol Gynradd South Point ers i'r adeilad newydd agor ar 2 Mawrth, 2022. Roedd 16 o blant wedi ymuno â'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, yr oedd 12 ohonynt yn byw yn y Rhws, gydag 11 wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd eraill a 5 yn ddechreuwr newydd a oedd wedi symud i mewn i Fro Morgannwg, gyda 4 o'r rheiny yn byw yn y Rhws. Ar sail nifer y disgyblion ar gofrestr gyfredol yr ysgol, roedd 60% o gapasiti dros ben o ran disgyblion cynradd a 54% o gapasiti dros ben o ran disgyblion meithrin. Bu cynnydd felly yn nifer y disgyblion a byddem yn disgwyl i'r niferoedd gynyddu gan fod gan yr ysgol bellach bresenoldeb gweledol yn yr ardal.

Yn yr amcanestyniad disgyblion a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer y cynnig, rhagwelwyd y byddai gan Ysgol Gynradd South Point 94 o ddisgyblion ar y gofrestr wrth drosglwyddo i'r safle newydd, ac y byddai 349 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd y Rhws, nad oedd yn cynnwys y datblygiad tai. Ar sail

No.

nifer cyfredol y disgyblion ar gofrestr South Point a'r Rhws, nid oedd y galw llawn am leoedd ysgol a ragwelwyd erbyn 2021/22 wedi'i wireddu eto. Y rheswm pennaf am hyn oedd na chafwyd unrhyw gynnydd gyda datblygiad tai a ddyrannwyd i'r gogledd-ddwyrain o'r llinell reilffordd, a oedd yn cynnwys 354 o unedau. Fodd bynnag, roedd potensial am gynnydd bellach gan fod cyfran fawr o'r safle yn dal i fod yn hyfyw. Amcangyfrifwyd y byddai'r 354 o dai yn creu cynnydd yn yr ardal o 98 o leoedd i blant oed cynradd. Ar sail hyn, rhagwelwyd y byddai 14% o leoedd dros ben yn Ysgol Gynradd South Point yn y dyfodol o fewn y cyfnod nesaf o 5 mlynedd.

Cafodd yr unedau preswyl olaf o dan Gam 1 y datblygiad eu cwblhau yn 2021/22 a olygai na fyddai'r cohort llawn o ddisgyblion posibl wedi'u hadlewyrchu yn y derbyniadau eto. Ni allai'r amcanestyniadau roi cyfrif union oedran y disgyblion a fyddai'n deillio o'r datblygiad, ac roedd disgwyl y byddai cynnydd cyffredinol yn nifer y derbyniadau ysgol o'r naill flwyddyn i'r nesaf ar ôl cwblhau'r datblygiad, ynghyd ag effaith gadarnhaol agor ysgol newydd.

Roedd yn berthnasol nodi nad oedd cwblhad y datblygiadau preswyl yn cyd-daro â chwblhad yr ysgol newydd, ac roedd hynny wedi effeithio ar nifer y lleoedd a oedd wrth ben yn Ysgol Gynradd South Point. O'r disgyblion a oedd yn byw yn y datblygiad, roedd 5 yn mynychu South Point, 36 yn mynychu Ysgol Gynradd y Rhws, 15 yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu enwadol ac 19 yn mynychu ysgolion cyfrwn Saesneg eraill y tu allan i ardal y Rhws. Gallai'r disgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Gynradd y Rhws ac ysgolion cyfrwng Saesneg eraill drosglwyddo i'r ysgol newydd yn y dyfodol gan ei bod bellach yn weithredol, ond roedd hynny'n dibynnu ar ddewis y rhieni.

(vi) **Cwestiwn gan Dr. Alexander Barratt**

Yn dilyn y weithred ddiweddar o gau Ysgol Gynradd Llancarfan, a allwch amlinellu cynlluniau ac amserlen y Cyngor ar gyfer gwaredu safle'r ysgol, gan gynnwys adeilad yr ysgol sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a ystyrir yn Drysor y Sir?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Ers penderfyniad y Cabinet i ddatgan nad oedd angen y safle mwyach, roedd y Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiad diwydrwydd dyladwy o unrhyw weithdrefnau statudol yr oedd yn ofynnol iddo eu hystyried cyn ei waredu. Y gobaith oedd y byddai'r broses adolygu hon yn dod i ben erbyn diwedd mis Ebrill 2022. Roedd y Cyngor yn anelu i waredu'r safle ar y cyfle cyntaf yn unol ag Argymhellion (3) i (5) a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Mawrth, gan fodloni unrhyw brosesau statudol a nodwyd yn rhan o'r adolygiad diwydrwydd dyladwy.

(vii) **Cwestiwn gan Mrs. Victoria Roberts**

A all y Cyngor gadarnhau a yw'r tir ar safle hen bwll y Knap yn eiddo cyfreithiol i Gyngor Bro Morgannwg ac/neu'n cael ei reoli ganddo.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.

Ydy.

(viii) **Cwestiwn gan Mrs. Kate Paschalis**

Sut y gall y Cyngor fynd i'r afael ag aflonyddwch gan bobl ifanc yn y Knap? Yn arbennig cerbydau sy'n goryrru a cherbydau didrwydded.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.

Roedd y Cyngor wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o unrhyw adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Knap. Pe bai unrhyw adroddiadau felly'n cael eu gwneud, byddent wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor ac i Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, dros y chwe mis diwethaf anaml iawn y cafodd y naill na'r llall unrhyw adroddiadau am drafferth yn gysylltiedig â phobl ifanc neu gerbydau. Heb adroddiadau o'r fath roedd hi'n anodd blaenoriaethu adnoddau i ymdrin â'r broblem.

Er gwaethaf y diffyg adroddiadau, ac er mwyn codi'r broblem bosibl hon o fewn y gymuned, byddai Tîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn trefnu i anfon taflenni 'Sut i adrodd am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' drwy law i breswylwyr cyfagos, fel bod ganddynt yr wybodaeth yr oedd ei hangen i adrodd am hynny, naill ai drwy 101 neu drwy anfon e-bost i SWP101@south-wales.police.uk

(ix) **Cwestiwn gan Dr. Alexander Barratt**

Yn y cynllun busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cais am gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Gynradd South Point, yr ysgol gynradd newydd yn y Rhws, a gyflwynwyd achos dros reoli'r galw am lleoedd ysgol a lleoedd gwag yng Ngorllewin y Fro?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Roedd datblygu Ysgol Gynradd South Point o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt) yn destun Achos Cyfiawnhad Busnes. Roedd yr achos busnes yn ystyried materion Trefniadaeth ysgolion, a oedd yn cynnwys asesiad o'r galw am ddisgyblion a'r lleoedd dros ben a ragwelwyd, o dan yr achos strategol yn rhan o'r achos o blaid newid ar gyfer y prosiect. Cyflwynwyd yr achos busnes ym mis Mai 2020 ac roedd yn cynnwys dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o'r galw a'r ystyriaethau ynghylch lleoedd dros ben, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn unol â'r broses statudol ar gyfer cymeradwyo cynigion ad-drefnu ysgolion yn 2018/19.

No.

Casglwyd y byddai "Trosglwyddo'r ysgol i adeilad mwy a chreu dalgylch newydd a fyddai'n cynnwys niferoedd cynaliadwy yn galluogi'r ysgol i adeiladu ar y cynnydd presennol gan ddarparu ar yr un pryd ar gyfer poblogaeth fwy o ddisgyblion. Byddai cynnydd yn nifer y disgyblion hefyd yn creu refeniw ychwanegol ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan.

Pe bai'r ysgol yn aros ar ei safle presennol, roedd hi'n debygol y byddai nifer y disgyblion yn parhau i ostwng. Gan fod cyllid ysgolion wedi'i seilio'n bennaf ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gyllideb yr ysgol."

(x) **Cwestiwn gan Dr. Alexander Barratt**

A oes unrhyw ohebiaeth wedi bod rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru ynghylch lefel y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd South Point ers agor yr ysgol newydd?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Ar ôl agor yr Ysgol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod faint o ddisgyblion oedd ar y gofrestr gyfredol yn Ysgol Gynradd South Point. Yn ogystal â hynny, fel awdurdod derbyn roedd y Cyngor yn cyflwyno data blynyddol ar leoedd mewn ysgolion i Lywodraeth Cymru yn rhan o'i ymarfer casglu data blynyddol. Roedd hyn yn cynnwys lefel y capasiti dros ben mewn ysgolion. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei harchwilio gan Lywodraeth Cymru, a byddai trafodaethau'n cael eu cynnal pe bai capasiti dros ben yn cael ei ystyried yn broblem.

Byddai'r Cyngor yn cynnal adolygiad llawn o ganlyniadau'r prosiect cyn hir, a byddai hynny'n cynnwys ymarfer gwarsi a ddysgwyd a fyddai'n adolygu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ragfynegi lleoedd disgyblion. Byddai canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu rhannu â phartneriaid y Cyngor, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a'r contractwr a adeiladodd yr ysgol.